# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
# Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

**Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg: 03/09/2025**

**Cyflwyniad**

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd wedi'i chynnwys yn un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema i strategaeth Cymraeg 2050:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

**A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg a'r rhaglen waith gysylltiedig 2021-2026?**

Nid oes unrhyw gysylltiad cryf nac uniongyrchol rhwng diwylliant rasio milgwn a'r iaith Gymraeg. Mae cysylltiadau diwylliannol â rasio milgwn yng Nghymru yn tueddu i adlewyrchu traddodiadau ehangach y DU yn hytrach na thraddodiadau unigryw Cymreig. Nid yw'r gamp wedi cael sylw amlwg yn y cyfryngau na digwyddiadau diwylliannol Cymraeg, ac nid yw wedi chwarae rhan sylweddol wrth hyrwyddo na gwarchod y Gymraeg.

**Effaith y cynigion ar y Gymraeg.**

Nod y Bil yw gwahardd rasio milgwn yng Nghymru. Fel y nodir isod, mae'r gwaith yr ydym wedi'i wneud yn awgrymu na fyddai fawr o effaith, yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar y defnydd o'r iaith neu'r diwylliant Cymraeg pe bai rasio milgwn yng Nghymru yn cael ei wahardd.

Mae'r Bil hwn yn ymwneud yn bennaf â gwella lles milgwn. Felly, nid ydym o'r farn bod unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg. Nid ydym wedi cael gwybod am unrhyw grwpiau Cymraeg a allai fod yn cael eu heffeithio gan y polisi. Nid ydym ychwaith yn ymwybodol bod y Gymraeg yn bwysig i bobl wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rasio milgwn.

Stadiwm Valley Greyhound yn Ystrad Mynach yw'r unig gae ras yng Nghymru. Nid oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Gymraeg yn cael ei siarad yn arferol yn y stadiwm. Mae'r wefan swyddogol, amserlenni rasys, cyfathrebiadau cyhoeddus a rasys sy'n cael eu ffrydio i'w gwylio mewn mannau eraill yn cael eu cyflwyno yn Saesneg yn unig.

Mae Valley Stadium wedi'i drwyddedu gan y corff rheoleiddio ledled y DU, Bwrdd Milgwn Prydain Fawr (GBGB). Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw wybodaeth na deunyddiau dwyieithog ar gael i gefnogi y Valley Stadium. Nid oes unrhyw gyfathrebiadau presennol ar gael yn yr iaith Gymraeg ar gyfer gweithgareddau GBGB yng Nghymru. Mae'n debyg bod hyn o ganlyniad i natur y sector, sy'n rhan o dirwedd ddiwylliannol ehangach y DU ac Iwerddon. Felly, ychydig o alw neu gynsail sydd am ddefnyddio’r Gymraeg yn y diwydiant.

Felly, ychydig o effaith a ddisgwylir i wahardd rasio milgwn yng Nghymru gael ar y defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r stadiwm wedi'i leoli yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, lle mae'r defnydd o'r Gymraeg yn bresennol ond nid yn gryf. Yn ôl y data am y Gymraeg sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Ebrill 2024 i Mawrth 2025 | LLYW.CYMRU, dywedodd ychydig o dan **16% o bobl yng Nghaerffili** eu bod yn gallu siarad Cymraeg, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru sydd tua 27%.

Ysgrifennodd perchnogion y stadiwm lythyr agored, yn Saesneg yn unig, am effaith y gwaharddiad ar rasio. Disgrifiodd y llythyr y stadiwm fel "ased cymunedol", gan ddod â theuluoedd, y rhai sy'n gwylio'r rasus a grwpiau lleol at ei gilydd. Fodd bynnag, nid oedd yn cyfeirio at y defnydd o'r Gymraeg yn y stadiwm a'r cyffiniau.

## Effaith y cynnig ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oedran, gan gynnwys oedolion

Mae'n annhebygol y bydd y polisi hwn yn cael effaith uniongyrchol ar addysg Gymraeg neu ar ddysgwyr Cymraeg o unrhyw oedran. Fodd bynnag, yn ystod gweithredu'r Bil, efallai y bydd cyfleoedd drwy gyfarfodydd, canllawiau, codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltiadau eraill i hyrwyddo statws y Gymraeg gyda'n rhanddeiliaid.

## Sut fydd y cynnig yn effeithio ar wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg

Gall rasio milgwn fod yn hobi anfasnachol ac yn fusnes masnachol. Nid yw'r Bil yn bwriadu sefydlu corff gan nad oes gwasanaeth na swyddogaeth i'w ddarparu. Felly, ni fydd y ddeddfwriaeth yn effeithio ar sut y gallai person neu sefydliad weithredu o ran yr iaith Gymraeg.

Roedd yr ymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd lles anifeiliaid, a gynhaliwyd rhwng 8 Rhagfyr 2023 a 1 Mawrth 2024, yn cynnwys dau gwestiwn yn ymwneud â rasio milgwn.

Roedd cwestiynau 6 a 7 o'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ar effeithiau'r holl gynigion ar y Gymraeg. Mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw effaith sylweddol nac effaith uniongyrchol ar y Gymraeg, gan fod y ffocws ar reoleiddio lles anifeiliaid yn hytrach na'r defnydd o iaith.

Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth glir o bwysigrwydd cyflwyno unrhyw ganllawiau yn y dyfodol yn ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Gymraeg. Pwysleisiodd yr ymatebwyr y dylai'r holl ddeunyddiau, canllawiau a chyfathrebiadau fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd rhai hefyd yn gweld unrhyw gynigion fel cyfle i fynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg, yn enwedig mewn meysydd sy'n wynebu'r cyhoedd fel arwyddion, hyfforddiant, a rhyngweithio â chwsmeriaid, gan gefnogi ei defnydd ar draws y sector.

**Pa dystiolaeth arall fyddai’n eich helpu i gynnal asesiad gwell?**

Nid oes llawer o dystiolaeth neu wybodaeth ar gael am y berthynas rhwng rasio milgwn a'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. O ganlyniad, ychydig sy'n hysbys am sut y gallai gwaharddiad posibl effeithio ar yr iaith a'r diwylliant Cymreig.

Bydd defnyddio'r Grŵp Gweithredu sy'n gweithio gyda ni i ystyried holl effeithiau'r Bil yn hanfodol wrth i'r trawsnewidiad fynd yn ei flaen.

**Casgliad**

Nod Llywodraeth Cymru yw cydbwyso buddiannau'r rhai yr effeithir arnynt gan y ddeddfwriaeth gyda'r nod o wahardd rasio milgwn. Rydym wedi ceisio osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a byddwn yn monitro ei effaith dros amser. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddeall unrhyw effeithiau posibl.

**Monitro a gwerthuso**

Bydd effaith y Bil hwn yn cael ei adolygu fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.